PWYLLGOR CYNLLUNIO

DYDD IAU, 8 RHAGFYR 2022

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Stubbs(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Humphreys, Ahmed, Hunt, Joyce, Robson, Wong a/ac Michael |

56 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Dan Naughton.

57 : DATGAN BUDDIANNAU

Gwnaed y datganiadau buddiannau canlynol yn unol â'r Cod Ymarfer Aelodau.

| Cynghorydd | Eitem | Natur y Buddiant |
|---|---|---|
| Stubbs | 22/01707/MNR – 88 Heol y Sblot | Rhagfarnus - wedi mynegi barn yn y gorffennol mewn perthynas â'r cais |
| Michael | 20/01882/MJR – Windrush, 58 Heol Pwll Melyn | Rhagfarnus – yn adnabod yr ymgeisydd yn dda. |
| Michael | 21/02138/MJR - Amddiffynfeydd Rhag Llifogydd Arfordirol Caerdydd. Morlin Aber Afon Hafren a glannau dwyreiniol a gorllewinol afon Rhymni, Caerdydd. | Buddiant Rhagfarnus - yn rhan o'r gwaith o sefydlu'r cynllun fel Aelod Cabinet. |
| Robson | 22/011636/MNR - Tir y tu cefn i Siediau a Gardd y Ganolfan rhwng 238 Heol Pant-bach a Heol y Bont | Rhagfarnus - yn siarad fel Cynghorydd Ward ac wedi mynegi barn yn y gorffennol |
| Robson | 22/01717/MJR - Pentref Chwaraeon Rhyngwladol | Rhagfarnus - wedi mynegi barn yn y gorffennol |

58 : COFNODION – I DDILYN

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Tachwedd 2022 yn gofnod cywir, ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

Nododd y Pwyllgor i'r Cyngor, yn ystod ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd 2022, gytuno i enwebu'r Cynghorydd Michael i'r Pwyllgor Cynllunio.

59 : DEISEBAU

1. Cais rhif 22/01636/MNR, Tir y tu cefn i siediau a Gardd y Ganolfan rhwng 238 Heol Pant-bach a Heol y Bont, Rhiwbeina.

2. Cais rhif 22/01707/MNR, 88 Heol y Sblot, Y Sblot

Siaradodd y deisebwyr mewn perthynas â rhif 2.

60 : CEISIADAU RHEOLI DATBLYGU

Ystyriodd y Pwyllgor y rhestr o geisiadau rheoli datblygu a gyflwynwyd yn unol â Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

PENDERFYNWYD: Y dylai'r Pwyllgor hwn yn unol â phwerau a ddirprwyir iddo benderfynu ar y ceisiadau rheoli datblygu canlynol yn ôl yr argymhelliad a nodir yn adroddiadau Cyfarwyddwr Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd, yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau pellach fel y manylir arnynt isod, a rhoi gwybod am y penderfyniadau'n unol ag Adran 70 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 neu Adran 74 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990.

## CEISIADAU A GYMERADWYWYD

**20/01882/MJR – LLANDAF**
**WINDRUSH, 58 HEOL PWLL MELYN**

*Gadawodd y Cynghorydd Michael yr ystafell tra roedd yr eitem hon yn cael ei hystyried yn unol â'i fuddiant rhagfarnus.*

Dymchwel y tŷ annedd presennol a'i ddisodli â 23 o fflatiau preswyl hunangynhwysol, o fewn pedwar bloc ar wahân gyda thirlunio, mynediad, parcio a seilwaith cysylltiedig.

**22/01717/MJR – GRANGETOWN**
**PENTREF CHWARAEON RHYNGWLADOL**

*Gadawodd y Cynghorydd Robson yr ystafell tra roedd yr eitem hon yn cael ei hystyried yn unol â'i fuddiant rhagfarnus.*

Amrywio Amod 2 21/02848/MJR i ddiwygio'r rhestr o gynlluniau a gymeradwywyd i gynnwys y cynlluniau diwygiedig.

**21/02138/MJR – Y SBLOT/TREDELERCH**
**AMDDIFFYNFEYDD RHAG LLIFOGYDD ARFORDIROL CAERDYDD. MORLIN ABER AFON HAFREN A GLANNAU DWYREINIOL A GORLLEWINOL AFON RHYMNI, CAERDYDD.**

*Gadawodd y Cynghorydd Michael yr ystafell tra roedd yr eitem hon yn cael ei hystyried yn unol â'i fuddiant rhagfarnus.*

Adeiladu cyfres o Amddiffynfeydd Rhag Llifogydd Afonol ac Arfordirol ar hyd Morlin Aber Afon Hafren a glannau Dwyreiniol a Gorllewinol Afon Rhymni, gan gynnwys Waliau Cynnal Creigiog, Matiau Amddiffyn Rhag Erydu Concrit, Byndiau Pridd, Gât Llifogydd Ddwbl (ger Clwb Hwylio a Physgota Cychod Modur Afon Rhymni) a Gosod Pyst Seiliau.

Yn amodol ar y diwygiadau canlynol i Amod 5:

Ni fydd unrhyw waith datblygu, gan gynnwys gwaith clirio’r safle, yn dechrau nes y bydd Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CRhAA) wedi'i gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo.

Bydd y CRhAA yn cynnwys manylion:
• Dulliau adeiladu: manylion deunyddiau, mesurau rheoli gwaddodion (gan gynnwys os yw gwaddod halogedig yn bresennol); sut y bydd gwastraff a gynhyrchir yn cael ei reoli; yn cysylltu â Datganiad Dull Adeiladu a Chynllun Samplu Gwaddodion.
• Gwaith Rheoli Safle Cyffredinol: y rhaglen adeiladu gan gynnwys cyflawni'r gwaith datblygu'n raddol, amserlen adeiladu, manylion gwaith clirio'r safle; manylion draenio’r safle adeiladu, ardaloedd ynysu, parthau byffer o faint priodol rhwng ardaloedd storio (sborion, olewau, tanwyddau, ardaloedd cymysgu concrit a golchi) ac unrhyw ddraen arwyneb neu gwrs dŵr, y math o byst seiliau ac amseru; llwybrau mynediad i gerbydau dros gynefinoedd sensitif e.e. morfa heli a mesurau diogelu cysylltiedig; cynllun a strategaeth gwaddodion halogedig.

• Rheoli Bioamrywiaeth: manylion cyfyngiadau pyst seiliau er mwyn osgoi aflonyddwch i bysgod mudol a'r casgliad pysgod; manylion diogelu cynefinoedd morfa heli; mesurau i osgoi aflonyddwch i adar sy'n gaeafu ac sy’n nythu ar y ddaear; rheoli rhywogaethau goresgynnol gan gynnwys cyswllt â chynllun asesu risg a rheoli bioddiogelwch; mesurau i ddiogelu dyfrgwn a moch daear yn ystod y gwaith adeiladu a mesurau osgoi ar gyfer ystlumod sy’n fforio ac yn cymudo; Datganiad Dull Gweithio Rhagofalus ar gyfer amffibiaid ac ymlusgiaid; mesurau lleihau, osgoi a diogelu ar gyfer rhywogaethau a chynefinoedd eraill (i gynnwys adar sy'n bridio, ystlumod, pathewod, llygod y dŵr ac anifeiliaid di-asgwrn cefn). I’w hysbysu drwy arolygon cyn-adeiladu a diweddaru yn ôl yr angen.

• Rheoli Pridd a Gwaddodion: manylion y llain uwchbridd, tynnu a storio gwaddodion a’u gwella i'w hail-ddefnyddio. Yn cysylltu â’r cynllun a’r strategaeth gwaddodion halogedig.

• Mesurau i sicrhau y bydd byndiau newydd yn adfywio'n naturiol neu os cânt eu hadu, y defnyddir hadau o ffynonellau lleol.

• Rheoli Niwsans: manylion y cyfyngiadau i'w rhoi ar waith yn ystod y gwaith adeiladu gan gynnwys amseru, hyd ac amlder gwaith; manylion mesurau i leihau sŵn a dirgryniad gan gynnwys gweithgareddau gosod pyst seiliau, er enghraifft rhwystrau acwstig; manylion mesurau rheoli llwch; mesurau i reoli gollyngiad golau a chadw’r awyr yn dywyll;

• Rheoli Adnoddau: manylion storio ac ynysu tanwydd a chemegau; manylion cynhyrchu gwastraff a gwaith i’w reoli; manylion rheoli gwaddodion; manylion y defnydd o ddŵr, dŵr gwastraff ac ynni.

• Rheoli Traffig: manylion danfoniadau i’r safle, peiriannau ar y safle, cyfleusterau golchi olwynion; palisiau safle, llwybrau mynediad pwrpasol i gerbydau, parcio i staff adeiladu, mesurau rheoli traffig a mesurau diogelu cynefinoedd;

• Atal Llygredd: dangos sut y bydd canllawiau perthnasol ar gyfer Atal Llygredd ac arfer gorau yn cael eu gweithredu, gan gynnwys manylion gweithdrefnau

gollyngiadau brys a chynllun ymateb i ddigwyddiadau; manylion sut yr ymdrinnir â gwaddodion halogedig.

• Manylion y bobl a'r cyrff sy'n gyfrifol am weithgareddau sy'n gysylltiedig â'r CRhAA a manylion cyswllt brys.

• Manylion cyswllt y Swyddog Cyswllt Cymunedol a fydd yn cyfathrebu ac yn cydgysylltu rhwng y contractwr adeiladu a thrigolion lleol.

• Clerc gwaith ecolegol/tirlunio i sicrhau cydymffurfiaeth adeiladu â chynlluniau a gymeradwywyd a rheoliadau amgylcheddol;

• Mapiau NVC i lywio llwybrau mynediad adeiladu a lleoliadau compowndau er mwyn osgoi lleoedd sensitif.

Bydd y CRhAA yn cael ei weithredu fel y'i cymeradwywyd wrth i'r safle gael ei baratoi ac yn ystod y gwaith adeiladu.

Rheswm: Er budd diogelwch priffyrdd, diogelu'r amgylchedd ac amwynder cyhoeddus yn unol â Pholisïau T5 (Rheoli Effeithiau Trafnidiaeth), T6 (Effaith ar Rwydweithiau a Gwasanaethau Trafnidiaeth), EN5 (Safleoedd Dynodedig), EN6 (Rhwydweithiau Ecolegol a Nodweddion o Bwys i Fioamrywiaeth), EN7 (Cynefinoedd a Rhywogaethau Blaenoriaeth), EN10 (Dylunio Sensitif i Ddŵr), ac EN13 (Llygredd Aer, Sŵn, Golau a Halogiad Tir) y Cynllun Datblygu Lleol"

## CEISIADAU WEDI'U GWRTHOD

**22/011636/MNR – RHIWBEINA**
**TIR Y TU CEFN I SIEDIAU A GARDD Y GANOLFAN RHWNG 238 HEOL PANT-BACH A HEOL Y BONT.**

*Ailddatganodd y Cynghorydd Robson ei fuddiant rhagfarnus gan gadarnhau y byddai'n siarad fel Cynghorydd Ward.*

Cadw cynhwysydd storio ar gyfer Snails Deli.

RHESWM:

1. Nid yw ymddangosiad diwydiannol y cynhwysydd storio, gan gynnwys ei raddfa, ei ffurf a'i ddeunyddiau a'i leoliad heibio llinell adeilad Heol y Bont, yn cyd-fynd â chymeriad preswyl, ansawdd a phatrwm datblygu yn yr ardal gyfagos, gan arwain at nodwedd ansensitif ac ymwthiol yn y strydlun sy'n niweidiol i amwynder gweledol a chymeriad yr ardal, yn groes i bolisi KP5 (i) Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd.

2. Mae'r cynhwysydd storio, yn rhinwedd ei raddfa, ei ffurf, ei ddeunydd, a chan ei fod heibio llinell adeilad Heol y Bont ac yn estyn uwchben y wal ffin gyfagos, yn anghymdogol ac yn niweidiol i amwynderau preswylwyr 1 Heol y Bont gan ei fod yn hyll ac yn ymwthiol pan edrychir arno o'r eiddo hwnnw, yn groes i bolisi KP5(x) Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd.

3. Dylid awdurdodi'r Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chyfreithiol i gyhoeddi Hysbysiad Gorfodi dan Adran 172 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i dynnu'r cynhwysydd storio anawdurdodedig.

**22/01707/MNR – Y SBLOT**
**88 HEOL Y SBLOT**

*Gadawodd y Cynghorydd Stubbs yr ystafell tra roedd yr eitem hon yn cael ei hystyried yn unol â'i fuddiant rhagfarnus. Y Cynghorydd Irene Humphreys a gadeiriodd yr eitem hon.*

Estyniad ar y llawr gwaelod yng nghefn yr eiddo, trosi llofft dormer, addasiadau a newid defnydd i dŷ amlfeddiannaeth SUI Generis mawr.

Yn amodol ar y canlynol:
Diwygio Amod 5 i ddarllen:
Gwneir y gwaith datblygu yn unol â'r cynlluniau cymeradwy canlynol.

- **CXB3/4/a/b/c/d – Cynllun Llawr Gwaelod Arfaethedig**
- **CXB3/5/a – Cynllun Llawr Cyntaf ac Ail Lawr Arfaethedig**
- **CXB3/6/a/b/c – Gweddau Arfaethedig**

RHESWM: I sicrhau bod y gwaith datblygu'n cael ei gwblhau'n foddhaol ac er mwyn osgoi amryfusedd yn unol ag amcanion Polisi Cynllunio Cymru i hyrwyddo system gynllunio effeithiol.

RHESWM:
"Yn rhinwedd yr addasiadau sydd eu hangen i hwyluso'r defnydd o'r eiddo fel tŷ amlfeddiannaeth, bydd y cynnig yn darparu swm annigonol o le amwynder y gellir ei ddefnyddio i wasanaethu nifer y meddianwyr yn groes i Bolisi KP5: Dylunio Cynaliadwy o Safon Dda a Pholisi H5: Is-rannu neu Drosi Eiddo Preswyl Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd a'r cyngor a geir yng Nghanllawiau Cynllunio Atodol 2016 ar Dai Amlfeddiannaeth.

# CEISIADAU WEDI'U GOHIRIO

**2/01718/MJR - Y SBLOT**
**Canolfan ddydd Moorland Road, Moorland Road**

61 : CEISIADAU A BENNIR GAN BWERAU DIRPRWYEDIG - I DDILYN

Cânt eu hadrodd ym mis Ionawr 2023

62 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Nid oedd unrhyw faterion brys i'w trafod

63 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF – 12 IONAWR 2023